



SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw a'i ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngurwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol, ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl, i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

12 Mai 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD BLYNYDDOL o GYNGOR SIR CEREDIGION am 2.00p.m, DDYDD GWENER, 19 MAI 2023 i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda, i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Anerchiad gan y Cynghorydd Ifan Davies ynglŷn â'i flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor**
- 3. Cofnodi gwerthfawrogiad y Cyngor am wasanaeth y cyn-Cadeirydd**
I'w gynnig gan y Cynghorydd Rhodri Evans
- 4. Ethol y Cynghorydd Maldwyn Lewis yn Gadeirydd y Cyngor am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol**
I'w gynnig gan y Cynghorydd Bryan Davies
I'w eilio gan y Cynghorydd Gareth Davies
- 5. Datganiad o Dderbyn y Swydd gan y Cadeirydd a etholwyd, a'r cyn-Gadeirydd i gyflwyno'r Gadwyn iddo. Cyflwyno Arwydd o'r Swydd i Gonsort y Cadeirydd, Y Parchedig Carys Ann**
- 6. Cadeirydd y Cyngor yn annerch y Cyfarfod**

7. **Ethol y Cynghorydd Keith Evans yn Is-gadeirydd y Cyngor am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol**
I'w gynnig gan y Cynghorydd Gareth Lloyd
I'w eilio gan y Cynghorydd Ifan Davies
8. **Datganiad o Dderbyn y Swydd gan yr Is-gadeirydd a etholwyd, a'r Cadeirydd i gyflwyno'r Gadwyn iddo. Cyflwyno Arwydd o'r Swydd i Gonsort yr Is-gadeirydd, Mrs. Eirlys Evans**
9. **Derbyn hysbysiad o benodiad y Parchedig Carys Ann yn Gaplan y Cadeirydd am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol**
10. **Anerchiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies**
11. **Penodi Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol (Tudalennau 3 - 10)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb.

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Sir Ceredigion